


CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL nos Fawrth Ionawr 31 2023

Presennol :- Cynghorwyr :- Aled Griffith, Dr Melfyn Edwards, Connor Westwood, Llywelyn Rhys (Cadeirydd) Michael Roberts, Llinos Murphy
Marian Roberts (Clerc)

1. **Ymddiheuriadau:-** Cyng Gwilym Jones

2. **Archwilio'r cyfrifon.** (Mantolen hyd at Ionawr 24 2023 ynghlwm).
Cafwyd y Fantolen yn gywir yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Aled Griffith yn eilio.

3. **Nadolig 2023**

(a) Adolygu trefniadau Nadolig 2022

Cytunwyd fod trefniadau Nadolig 2022 wedi bod yn llwyddiannus iawn oherwydd y newid i'r drefn arferol ond bod elfen o frys wedi bod i gael y trefniadau mewn lle ar gyfer y noson. Trafodwyd y posibilrwydd o lunio Is-Bwyllgor pwrpasol ar gyfer trefnu'r noson eleni ac roedd Cyng Llinos yn cynnig ei hun fel Cydlynnydd i gydweithio gyda asiantaethau eraill i sicrhau noson llwyddiannus. Soniwyd am osod cyllideb o £600 i £1,000 ar gyfer gweithgareddau ar y noson a bod angen dechrau trefnu hyn yn yr wythnosau nesaf. Eglurwyd fod Caru Port am barhau i drefnu'r siopa hwyr ar y noson a gwobr Glenda a bod diffyg cyfathrebu wedi bod cyn Nadolig 2022 o union gyfrifoldebau Caru Port a'r Cyngor Tref. Deallir felly mai'r Cyngor Tref fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y trefniadau goleuo Port o hyn allan.

Penderfynwyd :- rhoi cynnig gerbron y Pwyllgor Llawn ar 14.2.23 i greu Is-Bwyllgor Nadolig, o dan arweiniad Cyng Llinos Murphy, i ddechrau trefnu ar gyfer Nadolig 2023.

(b) Penderfynu ar storfa i'r goleuadau yn dilyn cyfarfod efo R.J.Electrics ar 27.1.23.

Mae'r Storfa yn cael ei rhoi am ddim i'r Cyngor Tref yn garedig iawn gan y Clwb Peldroed. Nodwyd fod y storfa wedi cael ei gwagio a bod digonedd o le yno bellach felly ni fydd angen chwilio am storfa arall. Bydd y Clerc yn trefnu Skip i ddod i glirio'r hen oleuadau a'r sbwriel o'r safle.

Nodwyd fod Richie o R.J.Electrics yn dweud fod angen o leiaf 7 golau newydd gan fod cyflwr rhai ohonynt wedi dirywio. Bydd yn anfon adroddiad o'r goleuadau ar gyfer cyfarfod 14.2.23 ond mae'n pwysleisio bod angen archebu goleuadau newydd cyn gynted â phosibl ar gyfer Nadolig 2023.

Penderfynwyd :- rhoi cynnig gerbron y Pwyllgor Llawn ar 14.2.23 i brynu 7 golau newydd.

(c) Cyng Aled Griffith – cynnig penderfynu ar ddyraniad cyfartal o wariant Nadolig y Cyngor Tref rhwng ardaloedd gwahanol Porthmadog.

Nodwyd fod gan Tremadog 200 oleuadau Nadolig i'w gosod o amgylch y Sgwâr - a fyddai'r Cyngor Tref yn fodlon talu i R.J.Electrics i osod yn goleuadau yma yn eu lle? Fyddai modd rhoi mwy o oleuadau ym mhentrefi Borth y Gest a Morfa Bychan? Cytunwyd fod anghenion gwahanol gan ardaloedd gwahanol a'i bod hi'n anodd i rannu'r arian yn gyfartal rhwng pob man.

Penderfynwyd :- holi mudiadau fel Tremadog 200, Cyfeillion Borth y Gest a Chyfeillion Morfa Bychan i ofyn beth fuasen nhw'n ei ddymuno ei weld fel goleuadau Nadolig 2023 yn eu hardal nhw yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

7. Biliau i'w talu - gwariant disgwylidig

Nodwyd y bydd y Cyngor Tref yn derbyn Grant gan Gyngor Gwynedd am y gwaith peillio/ plannu ar Gae Bodawen a bod y Cyngor hefyd yn gallu hawlio'r TAW yn ôl.

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Aled Griffith yn eilio.

1	Xerox Finance	Llogi llungopiwr 1.1.23 – 31.3.23 Wedi talu 13.1.23	£ 104.00
2	Yr Wylan	Hysbyseb Ceisiadau Ariannol a hysbyseb tendr torri gwair	£ 32.00
3	Gareth Griffiths	Gosod a thynnu goleuadau Nadolig y Parc	£ 1,041.60
4	Defib Store	2 set o bediau newydd i Defibs Lidl a Hen Ysgol	£ 132.00
5	Kehoe Countryside	Gwaith hadu a plannu Cae Bodawen	£ 7,920.00

8. Penderfynu ar gyflogi'r Hebogwr eleni.

Penderfynwyd :- cyflogi'r Hebogwr am eleni unwaith eto yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Michael Roberts yn eilio.

9. Ceisiadau Cynllunio

Dim cais wedi dod i law.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.10

Marian Roberts (Clerc)

1.2.23